# Chwedl Llyn y Fan Fach




Un diwrnod, pan oedd mab fferm Blaen Sawdde yn edrych ar ôl gwartheg ei fam ger Llyn y Fan Fach, gwelodd y forwyn harddaf roedd wedi ei gweld erioed. Roedd hi'n eistedd ar wyneb y dŵr a syrthiodd y dyn ifanc mewn cariad â hi ar unwaith.

Aeth ati a chynigiodd ddarn o fara iddi er mwyn denu ei sylw ond gwrthododd hi'r bara, gan ddweud, "Mae dy fara di'n rhy sych. Wnei di byth fy nal i," a diflannodd i mewn i'r llyn.

Dychwelodd y dyn ifanc y diwrnod wedyn a chynigiodd fwy o fara iddi, ond gwrthododd hi ei gymryd eto. "Mae dy fara di'n rhy laith," dywedodd y forwyn y tro yma, cyn diflannu i mewn i'r llyn.

Dychwelodd y dyn ifanc y trydydd dydd a chynnig bara i'r forwyn eto. Y tro hwn, roedd hi'n hapus gyda'r bara ac felly dyma hi'n ei dderbyn.

Gofynnodd y dyn ifanc iddi ei briodi a chytunodd – ar un amod. Dywedodd petai e'n ei tharo hi dair gwaith, y byddai'n dychwelyd i'r llyn. Roedd y dyn ifanc yn hapus iawn gyda'r amod oherwydd nid oedd yn gallu gweld unrhyw reswm pam byddai'n ei tharo byth!

Priododd y ddau a rhoddodd tad y ferch wartheg, defaid, geifr a cheffylau gorau'r wlad iddynt yn anrheg briodas. Aethant i fyw ar fferm Esgair Llaethdy a chawsant dri mab. Roeddent yn hapus iawn ar y fferm am flynyddoedd.

Un diwrnod, digwyddodd rhywbeth anffodus iawn. Dyma'r dyn ifanc yn taro'i wraig yn ysgafn ar ddamwain yn ei chartref pan oedd hi'n anfodlon mynd i wasanaeth bedydd yn yr ardal. Yna, beth amser wedyn, dyma fe'n ei tharo hi eto ar ddamwain pan oedd hi'n crio mewn priodas – ac eto pan ddechreuodd hi chwerthin mewn angladd. Erbyn hyn, roedd e wedi ei tharo hi dair gwaith ac felly diflannodd y forwyn yn ôl i Lyn y Fan Fach, gan gymryd yr holl anifeiliaid gyda hi.

Torrodd y dyn ifanc ei galon. Roedd y meibion yn drist iawn o golli eu mam ac aethant i chwilio amdani yn aml. Un diwrnod, dyma hi'n ymddangos ger Dôl Hywel, gan ddweud wrth ei mab hynaf, Rhiwallon, y byddai'n dod yn feddyg. Rhoddodd hi gasgliad o feddyginiaethau iddo, gan ddweud y byddai e a'i ddisgynyddion – ei blant a'u plant nhw a'u plant nhw – yn feddygon ardderchog.

Gwelodd y meibion hi eto ymhen rhai dyddiau – ger Pant y Meddygon a Llidiart y Meddygon – a dangosodd hi blanhigion a pherlysiau iddynt oedd yn dda iawn ar gyfer gwella afiechydon.

Oherwydd eu gwybodaeth a'u sgiliau arbennig, daeth Rhiwallon a'i ddisgynyddion yn feddygon gorau'r wlad. Nhw oedd Meddygon Myddfai ac roeddent yn enwog iawn. Mae'n bosib gweld eu meddyginiaethau mewn hen hen lyfr o'r enw *Meddygon Myddfai* hyd yn oed heddiw.

1. Ble mae Llyn y Fan Fach?

Ticiwch **un**.

- yng ngogledd Sir Gaerfyrddin ☐
- yn ne Sir Gaerfyrddin ☐
- yng ngorllewin Sir Gaerfyrddin ☐
- yn nwyrain Sir Gaerfyrddin ☐

2. Rhowch y digwyddiadau hyn yn y drefn gywir – o 1 i 8.

Mae un wedi ei wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| Syrthiodd y dyn ifanc mewn cariad â'r ferch. | ☐ |
| Roedd y bara'n rhy sych. | ☐ |
| Cynigiodd y dyn ifanc ddarn o fara iddi am y tro cyntaf. | ☐ |
| Roedd y bara'n berffaith. | ☐ |
| Gofynnodd y dyn ifanc i'r ferch ei briodi. | ☐ |
| Aeth dyn ifanc i gerdded ar lan Llyn y Fan Fach. | 1 |
| Cytunodd hi i'w briodi ar un amod. | ☐ |
| Roedd y bara'n rhy laith. | ☐ |

3. Darllenwch y testun yma a sylwch ar y radd eithaf - **harddaf**.

'... gwelodd y forwyn **harddaf** roedd wedi ei gweld erioed.'

Beth yw ffurf eithaf yr ansoddeiriau mewn cromfachau?

Dyma'r bara ______________________________ (**sych**) roedd y ferch wedi ei flasu erioed.

Dyma'r llyn ______________________________ (**prydferth**) roedd y dyn ifanc wedi ei weld erioed.

Hwn oedd y dyn ______________________________ (**hapus**) yn y byd.

4. Pa air yn y testun sy'n golygu 'aeth yn ôl'?

_______________________________________________

5. Atalnodwch y frawddeg yma'n gywir.

Wna i byth dy daro di dywedodd y dyn ifanc

6. Beth oedd y dyn ifanc yn ei wneud yn yr ardal?

Ticiwch **un**.

| | | | |
|---|---|---|---|
| gwerthu bara | ☐ | gofalu am anifeiliaid | ☐ |
| chwilio am wraig | ☐ | arnofio ar y dŵr | ☐ |

7. Darllenwch y paragraff yma.

> Un diwrnod, digwyddodd rhywbeth anffodus iawn. Dyma'r dyn ifanc yn taro'i wraig yn ysgafn ar ddamwain yn ei chartref pan oedd hi'n anfodlon mynd i wasanaeth bedydd yn yr ardal. Yna, beth amser wedyn, dyma fe'n ei tharo hi eto ar ddamwain pan oedd hi'n crio mewn priodas – ac eto pan ddechreuodd hi chwerthin mewn angladd. Erbyn hyn, roedd e wedi ei tharo hi dair gwaith ac felly diflannodd y forwyn yn ôl i Lyn y Fan Fach, gan gymryd yr holl anifeiliaid gyda hi.

Tanlinellwch y **3** ymadrodd sy'n dangos lle roedd y ferch pan wnaeth y dyn ifanc ei tharo hi.

8. Darllenwch y paragraff yma.

> Torrodd y dyn ifanc ei galon. Roedd y meibion yn drist iawn o golli eu mam ac aethant i chwilio amdani yn aml. Un diwrnod, dyma hi'n ymddangos ger Dôl Hywel, gan ddweud wrth ei mab hynaf, Rhiwallon, y byddai'n dod yn feddyg. Rhoddodd hi gasgliad o feddyginiaethau iddo, gan ddweud y byddai e a'i ddisgynyddion – ei blant a'u plant nhw a'u plant nhw – yn feddygon ardderchog.

Tanlinellwch y frawddeg sy'n dangos bod gŵr y forwyn yn drist iawn.

**9.** Beth sy'n dangos bod y tri mab yn colli eu mam yn ofnadwy?

---

**10.** Darllenwch y testun yma:

> Rhoddodd hi gasgliad o feddyginiaethau iddo …

Beth rydych chi'n meddwl yw ystyr y gair 'feddyginiaethau' (neu 'meddyginiaethau')? Edrychwch yn ofalus ar y gair i weld ydy e'n debyg i air arall rydych chi'n ei wybod. Efallai y bydd hyn yn eich helpu chi.

Ticiwch **un**.

- rhestr o enwau anifeiliaid ☐
- gwybodaeth am yr ardal ☐
- syniadau ar gyfer sut i wella salwch ☐
- ei chyfeiriad newydd yn y llyn ☐

Fel arfer, mae chwedl yn cynnwys ychydig o wirionedd ac ychydig o ffuglen neu elfennau ffantasïol. Mewn geiriau eraill, mae'n bosib bod rhai pethau'n wir a bod rhai pethau wedi cael eu creu. Mae'n bosib hefyd fod rhannau o chwedl yn cael eu newid wrth iddi hi gael ei hailadrodd dro ar ôl tro.

Atebwch y cwestiynau hyn, gan gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud â rhesymau ac enghreifftiau o'r chwedl.

- Beth yw'ch barn chi am y chwedl hon?
- Beth sy'n awgrymu y gallai rhannau o'r chwedl fod yn wir?
- Ydy rhai pethau'n rhy ffantasïol i fod yn wir?